## Diweddariad Data Cymru – PCYC Chwefror 2022

**Hyfforddiant DataBasicCymru+**

Rydym yn parhau i gyflwyno'n hyfforddiant ar gyfer awdurdodau, sy'n helpu i wella hyder staff wrth ddefnyddio a dadansoddi data. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ein trydedd carfan, a'r bwriad yw cynnal dwy arall y flwyddyn ariannol hon.

Rydym ni hefyd wrthi'n hyfforddi hwyluswyr Cymraeg, gan fwriadu cynnig yr hyfforddiant yn naill ai Cymraeg neu Saesneg yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan hyfforddiant neu cysylltwch â Duncan Mackenzie.

**'Hysbysu ac Ysbrydoli' – rhaglen weminarau**

Rydym yn cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen weminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli' a lansiwyd yn ddiweddar. Mae dwy brif thema i'r rhaglen, sef:

Mae ein gweminarau **Data***sy'n***Hysbysu** yn cynnig cyflwyniad lefel-uchel i amrywiol bynciau sy'n ymwneud â data, ystadegau ac ymchwil.

Mae ein gweminarau **Data***sy'n***Ysbrydoli** roi sylw i waith arloesol ac ysbrydoledig rydym ni a/neu sefydliadau eraill yn ei wneud gyda data.

***Mae'r gweminarau sydd ar y gweill yn cynnwys:***

Defnyddio data i ddeall tlodi (gyda Sefydliad Joseph Rowntree) – 10 Chwefror
"Nid rhif ydw i": cyflwyniad i ymgysylltu â dinasyddion – 24 Chwefror

I gadw lle ewch i Tocyn Cymru.

Bydd gwybodaeth am ein gweminarau ym mis Mawrth yn cael ei chyhoeddi cyn hir. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: https://www.data.cymru/cym/webinars

I fod ymhlith y cyntaf i glywed am sesiynau'r dyfodol, 'cofrestrwch' ar ein rhestr bostio 'Hysbysu ac Ysbrydoli'.


**Cymunedau Ymarfer**

Ledled y sector cyhoeddus, mae llawer o sefydliadau sy'n ceisio gwneud yr un mathau o bethau gyda data, o fewn eu sefydliad ac o bosib yn ehangach. Mae'n anochel, felly, bod gennym ni broblemau, heriau a dyheadau tebyg. Gan hynny, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Arweinwyr Data Cymru, rydym yn sefydlu cyfres o Gymunedau Ymarfer. Bydd y cymunedau hyn yn caniatáu i ni i ni rannu gwersi, trafod heriau

a, gobeithio, gwneud cynnydd gyda'n gilydd mewn rhai o'r meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i ni i gyd.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich meddyliau am y cwestiynau canlynol:

- A oes unrhyw gymunedau data penodol y mae arnom eu hangen, yn eich tyb chi (mae'r llun isod yn cynnwys rhai awgrymiadau)?
- Pa grwpiau neu cymunedau data ydych chi'n ymwybodol ohonynt sydd eisioes yn bodoli?
- Pa gymunedau data y dylem ganolbwyntio ar eu sefydlu yn gyntaf?
- A fyddech chi'n fodlon hwyluso cymuned data? Os felly, pa un?




Am fwy o wybodaeth a/neu os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â Suzanne Draper.

**Defnyddio PowerBi i hybu dealltwriaeth**

Rydym yn datblygu cyfres o ddangosfyrddau rhyngweithiol (PowerBI) i hybu dealltwriaeth a llywio polisi mewn meysydd blaenoriaeth lleol a chenedlaethol allweddol. Byddant wedi'u seilio, i ddechrau, ar ddata sy'n bodoli'n barod a'u nod fydd cynnig darlun lleol ac is-leol, lle bo'n bosibl.

Bydd y ddau gyntaf, a gaiff eu cyhoeddi cyn hir, yn edrych ar Dlodi a Llesiant.

Cadwch lygad ar ein gwefan a Twitter am fwy o wybodaeth.

**Adeiladu capasiti - rhaglen hyfforddiant ar ei ffordd…**

Hoffech chi ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac yn dymuno cael mwy o werth ohono? Ydych chi'n meddwl am ehangu'ch sgiliau?

Rydym wedi datblygu cyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich cyflwyno i:

- Ddefnyddio a chynhyrchu ystadegau cryno
- Cyflwyno data

- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

I gyd-fynd â'r hyfforddiant hwn, byddwn yn cyhoeddi cyfres o arweiniadau hefyd.

Bydd mwy o wybodaeth am ein hyfforddiant yn dilyn cyn bo hir…cadwch lygad allan amdani!

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, yna cysylltwch â Sam Sullivan.